# heddwch

haf 2007
rhif 43

cnd cymru — yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear


# Cerdded tuag at y Goleuni

**Dylai maint y gwrthryfel seneddol yn erbyn olynydd i Trident ar 14eg roi hyder i bob un ohonom ein bod yn ennill y ddadl yn erbyn arfau niwclear. Bu'n rhaid i'r llywodraeth ddibynnu ar y blaid Geidwadol i ennill y bleidlais, gan wynebu'r gwrthryfel mwyaf ar y meinciau cefn ar fater cartref ers i Lafur ddod i rym ym 1997. Yn wir, roedd y maint o bwys hanesyddol: dyma'r gwrthryfel mwyaf ar bolisi amddiffyn ers i Lafur ffurfio llywodraeth am y tro cyntaf ym 1924.**

Newyddion gwell fyth yw'r ffaith mai dim ond crib rhewfryn anferth - sy'n cynrychioli mwy o wrthwynebiad i arfau niwclear nag erioed o'r blaen - yw'r gwrthwynebiad seneddol yma. Datgelwyd, mewn arolwg yn gynnar ym mis Mawrth, fod 72% o'r boblogaeth yn erbyn bwrw ymlaen i geisio olynydd i Trident. Mae'n gwaith yn ystod y misoedd diwethaf wedi dangos fod y gwrthwynebiad hwnnw'n cynnwys pobl o bob rhan o gymdeithas, o undebau llafur a grwpiau crefyddol, o bob plaid wleidyddol a phobl sy'n gwrthwynebu adnewyddu Trident ar sail moesoldeb, cyfreithlondeb, y gost ac ystyriaethau diogelwch. Mae'r dadleuon hynny wedi argyhoeddi pobl na all arfau dinistr torfol warantu ein diogelwch yn y dyfodol, a'u bod yn amherthnasol i'n hanghenion diogelwch. Mae llawer o bobl wedi dangos fod eu meddyliau'n agored i newid, i syniadau newydd; mae'n bryd i'r llywodraeth adlewyrchu hynny a rhoi'r gorau i'w hen ffordd o feddwl sy'n perthyn i oes y Rhyfel Oer.




**Jill Gough, Ray Davies a Dai Davies MP Caerdydd, Chwefror 17eg**

### Gwrthdroi

Beth sy'n drawiadol iawn yw diffyg hyder amlwg y llywodraeth ar y pwnc yma – mae hi'n amlwg yn ymwybodol o'i safle gwan. Dim rhyfedd, gan ei bod wedi bod yn colli'r ddadl ledled y DU, a llu o bleidleisiau ar raglenni teledu a radio. Cafodd hynny ei grynhoi'r dwt gan yr Ysgrifennydd Tramor a ddywedodd nad oedd y penderfyniad i gael olynydd i Trident 'yn ddiwrthdro'). Nac ydy, yn wir. Rydym yn gweithio i wrthdroi'r penderfyniad hwnnw ac fe fyddwn yn llwyddiannus.

### Byd Di-niwclear

Rhaid i'n hymgyrch fod yn un ddeublyg yn y misoedd sy'n o'n blaenau. Mae pwysau ar y llywodraeth i gymryd camau gwirioneddol tuag at ddiarfogi amlochrog. Roedd adroddiad y Pwyllgor Amddiffyn ar adnewyddu Trident yn galw am 'naratif cryfach ymlaen' tuag at ddiarfogi amlochrog, ac yn rhyngwladol, mae Kissinger, Gorbachev, ElBaradei, Annan a Blix wedi galw am symud ymlaen tuag at fyd di-niwclear.

Mae ail ran cynnig y llywodraeth ar Fawrth 14eg yn galw am gynnydd gyda'n hymrwymiadau o dan y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear, a gall hynny fod o gymorth i ni wrth ymgyrchu, ond i ni ofalu peidio â chytuno â cham-honiadau'r llywodraeth ei bod eisoes wedi symud ymlaen ar fater diarfogi. Mae'n nodau ar gyfer y cyfnod nesaf o ymgyrchu yn gwbl glir: rhaid ymdrefnu i wrthdroi'r penderfyniad i adnewyddu Trident a phwyso am ddiarfogi amlochrog.

### Meddwl yn Wahanol

Rydym mewn safle cryf i gyflawni'r nodau hyn oherwydd mae'r cynghreiriau a adeiladwyd i wrthwynebu olynydd i Trident yn rhai llydan a chryf. A gallwn adeiladu ymhellach ar eu sail. Mae'n hachos wedi ei seilio ar weledigaeth ymarferol o ddyfodol gwahanol, lle gallwn gymryd camau i lunio byd a fydd yn cefnu ar fileindra a dinistr torfol. Nid ydym yn fodlon derbyn polisïau gan y llywodraeth a fydd yn arwain at ymlediad niwclear ac, yn y pen draw, at ryfel niwclear. Nid yw'r mwyafrif o bobl y DU yn fodlon derbyn hynny chwaith. Roedd y bleidlais ar Fawrth 14eg yn gam allweddol ar y ffordd tuag at y fuddugoliaeth honno, tuag at fyd heddychlon a chyfiawn, yn rhydd o ofn difodiant niwclear.

Ymfalchïwch yn hynny a bwriwn ymlaen â'r gwaith.

**Kate Hudson**
**Cadeirydd CND Prydeinig**

## y tu fewn:


* **Beth y gall y Cynulliad ei wneud**
* **Newyddion Faslane 365**
* **Yr Alban wedi'r etholiad**
* **Ieuenctid yn gweithredu**
* **a mwy**




# Dyfodol Di-niwclear

**Ychydig iawn o sylw a gafodd mater arfau niwclear yn etholiadau diweddar y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hyn yn wahanol iawn i etholiadau Senedd yr Alban lle mae canolfan longau tanfor Faslane yn uchel ar yr agenda wleidyddol. Ei safiad gwrth-niwclear cryf oedd un o'r rhesymau a roddwyd dros bleidlais gref Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) a'i llwyddiant o ran mynd yn blaid fwyaf Senedd yr Alban. Mae hyn yn cynrychioli cam mawr ymlaen tuag at ddileu arfau niwclear, ac er bod amddiffyn yn fater a neilltuwyd i lywodraeth San Steffan, y *mae* yna ffyrdd y gall Senedd yr Alban ei gwneud hi'n anodd i arfau niwclear Prydain aros yn yr Alban.**

Mae canlyniad yr etholiad wedi anfon neges glir at y llywodraeth Lafur fod ei pholisïau o fwy o arfau niwclear a rhyfeloedd parhaus yn annerbyniol i bobl yr Alban. Mae hefyd yn dangos fod gwneud safiad cryf yn erbyn arfau niwclear yn gwneud plaid yn etholadwy yn hytrach na'r gwrthwyneb.

Mae'r cytundeb cydweithredu rhwng yr SNP a Phlaid Werdd yr Alban wedi gwneud gwrthwynebiad i adeiladu gorsafoedd pwer niwclear newydd yn brif bwnc craidd y gallant gytuno arno. Disgrifiwyd eu safiad yn erbyn arfau niwclear a phwer niwclear ar achlysur lansio'r cytundeb fel y "*seiliau i wleidyddiaeth newydd flaengar ar gyfer yr Alban.*"

Mae 740 o bobl wedi cael eu restio yn Faslane yn ystod y gwarchae blwyddyn o hyd – a dim ond hanner ffordd drwyddi yr ydyn ni! Mae miloedd yn ychwanegol, o bob cefndir, pob rhan o Brydain ac o wledydd tramor wedi protestio ar y safle.

Er mwyn iddo dyfu mewn pwer a statws, fedr Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddim parhau i anwybyddu materion sy'n effeithio ar ddyfodol pawb, ac y dylai Cymru fod â safbwynt arnynt hyd yn oed os nad oes ganddi'r pwerau i weithredu hyd yma.

Mae'n gwbl annerbyniol fod adnewyddu Trident - a fyddai'n groes i'r ymrwymiad a wnaed gan Brydain i ddiarfogi 37 mlynedd yn ôl pan arwyddodd y Cytundeb Atal Ymlediad, ac a fyddai'n costio biliynau o arian y trethdalwyr – heb gael ei drafod, hyd yn oed, yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae eisiau i ni dyfu i fyny fel cenedl a derbyn y cyfrifoldeb am ein dyfodol – mewn ynni ac mewn materion rhyngwladol. Rhaid i ni yn y mudiad heddwch wneud yn siur fod yr Aelodau Cynulliad newydd yn ein Senedd yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac yn gweithio i wneud Cymru'n wlad ddi-niwclear.

**Jill Evans**
**Cadeirydd CND Cymru**

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch, chyfiawnder a diarfogi rhyngwladol, a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgylchedd**

# Dim Olynydd i Trident

**Ar y 14eg o Fawrth, dioddefodd y llywodraeth Brydeinig ei gwrthwyfel mwyaf ar bolisi cartref ers i Lafur ddod i rym ym 1997. Dim ond y gwrthryfel ar y rhyfel yn erbyn Irac oedd yn fwy. Pleidleisiodd 161 o ASau yn erbyn cynnig y llywodraeth o blaid bwrw ymlaen ag olynydd i Trident, a phleidleisiodd 167 o blaid gwelliant yn datgan na phrofwyd yr achos o blaid olynydd i Trident (testun isod). Mae maint y gwrthwynebiad yn bwysig dros ben. Mae hyn, ynghyd â'r mwyafrif o'r cyhoedd sydd yn erbyn olynydd i Trident, yn dangos newid sylfaenol yn agweddau pobl Prydain at arfau niwclear, ac mae'n gam allweddol tuag at ddileu arfau niwclear ym Mhrydain ac yn fyd-eang.**

**Y Prif Gwestiwn:**

'Fod y Tŷ hwn yn cefnogi penderfyniad y Llywodraeth, fel a nodwyd yn y Papur Gwyn, *The Future of the United Kingdom's Nuclear Deterrent*, i gymryd y camau angenrheidiol i gynnal braw-atalydd niwclear strategol lleiafsymol y DU y tu hwnt i oes y system bresennol ac i gymryd camau pellach tuag at gyflawni cyfrifoldebau diarfogi'r DU o dan Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Ymlediad.'

**Pleidleisiodd yr ASau Cymreig a ganlyn yn erbyn y cynnig hwn:**

Martin Caton (Gwyr), Dai Davies (Blaenau Gwent), Paul Flynn (Gorllewin Casnewydd), Dai Havard (Merthyr Tudful a Rhymni), Siân James (Dwyrain Abertawe), Elfyn Llwyd (Meirionydd Nant Conwy), Julie Morgan (Gogledd Caerdydd), Lembit Öpik (Sir Drefaldwyn), Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr), Betty Williams (Conwy), Hywel Williams (Caernarfon), Mark Williams (Ceredigion), Roger Williams (Brycheiniog a Maesyfed), Jenny Willott (Canol Caerdydd)

**Y Gwelliant a Gynigiwyd:**

Yn union fel y Prif Gwestiwn uchod, ac yna:

'ond cred na phrofwyd yr achos hyd yma, a deil heb ei argyhoeddi o'r angen am benderfyniad buan.'

Pleidleisiodd yr un ASau Cymreig dros y gwelliant hwn â'r rhai a oedd yn erbyn y Prif Gwestiwn, gydag un yn fwy, sef Chris Ruane (Dyffryn Clwyd) a gollodd y bleidlais ar y Prif Gwestiwn.

# Lleisiau Llafar Cymru

***Galwai datganiad a gefnogwyd gan gerddorion, beirdd, awduron, arweinwyr eglwysig a detholiad o gynrychiolwyr etholedig Cymru ar Aelodau Seneddol a'r cyhoedd i 'ddewis heddwch a chyfiawnder, nid arfau niwclear a rhyfel'.***

**Dywedai'r datganiad:**

'Mae'r Senedd Brydeinig ar fin pleidleisio ar olynydd i Trident – system arfau niwclear Prydain. Mae'r rhain yn Arfau Dinistr Torfol a all ladd cannoedd o filiynau o bobl. Ni allant ein hamddiffyn rhag y bygythiadau sy'n bodoli i'n diogelwch heddiw, fel brawychiaeth a newid hinsawdd.

'Mae bron 60% o'r cyhoedd ym Mhrydain yn dweud nad ydynt am gael olynydd i Trident. Byddai penderfyniad o blaid yn gwneud y byd yn lle mwy peryglus ac yn atgyfnerthu rhagrith ein llywodraeth a oresgynnodd Irac ar sail celwydd ynglŵn ag Arfau Dinistr Torfol – ond sy nawr yn bwriadu adeiladu arfau niwclear newydd.

'Os ydy Prydain yn dweud fod arni angen arfau niwclear er mwyn bod yn ddiogel, mae gwledydd eraill yn debyg o ddilyn. Gallai cael olynydd i Trident, a ninnau heb fod yn wynebu unrhyw fygythiad niwclear, ddechrau ras arfau niwclear.

'Byddai'n well gwario'r £76 biliwn o gost sicrhau a chynnal arfau niwclear newydd yn lle Trident ar iechyd, addysg, dileu tlodi byd-eang a mynd i'r afael â phroblemau newid hinsawdd.

'Gadewch i ni ddewis heddwch a chyfiawnder, nid arfau niwclear a rhyfel. Ymunwch â ni i alw ar y llywodraeth – Dim Olynydd i Trident!'

**Roedd y rhai a arwyddodd yn cynnwys:**

Y Parchedicaf Ddr Barry C Morgan, Archesgob Cymru; Y Parchedig John Owen ac Elina Owen, (Bethesda Gwynedd) **Cerddorion:** Charlotte Grieg, Super Furry Animals, Scritti Politti, Lost Prophets, Rhys Mwyn, Goldie Lookin' Chain, Catrin Finch, **Awduron ac Artistiaid:** John Williams, Niall Griffiths, Owen Sheers, Nigel Jenkins, Robert Minhinnick, Lloyd Jones, Harry Holland, Patrick Jones, Boyd Clack, **Cynrychiolwyr Etholedig:** Martin Caton AS, Dai Davies AS, Janet Davies AC, Jill Evans ASE, Paul Flynn AS, Nia Griffith AS, Dafydd Iwan, Bethan Maeve Jenkins (Cymru X), Ieuan Wyn Jones AC, Dai Lloyd AC, Elfyn Llwyd AS, John Marek AC, Adam Price AS, Janet Ryder AC, Dafydd Elis Thomas AC, Rhodri Glyn Thomas AC, Hywel Williams AS, Leanne Wood AC, Kirsty Williams AC.

Merched y Wawr a Cymru X

Datgelodd arolwg barn ICM ym mis Mehefin 2006 fod 81% o'r cyhoedd ym Mhrydain yn credu y dylai unrhyw benderfyniad ynglŵn ag olynydd i Trident gael ei wneud gan y Senedd, nid gan y Prif Weinidog yn unig. Yn ôl arolwg barn ICM ym mis Gorffennaf 2006, mae 59% o'r cyhoedd ym Mhrydain yn gwrthwynebu olynydd i Trident pan nodwyd y byddai'r gost yn £25 biliwn o leiaf. Roedd yr ymgyrch 'Dim yn ein Henw Ni' a lansiwyd yn erbyn Olynydd i Trident ar y 15fed Chwefror 2007 [http://www.independent.co.uk/] yn cynnwys Glenys Kinnock ASE, Y Parchedicaf Ddr Rowan Williams, Archesgob Caergaint, a'r Athro Ken Booth (Aberystwyth).

# Pam na all Rhodri fod yn debycach i Ken?

**Mae llawer yn gyffredin gan Ken Livingstone a Rhodri Morgan. Enillodd y ddau eu swydd er gwaethaf Tony Blair a phrin fod y ddau wedi cuddio eu dymuniad iddo ymddeol yn gynnar. Mae awydd Rhodri am weld dyfroedd coch clir rhwng San Steffan a Chymru, a pholisïau Llafur asgell-chwith Ken, yn dangos yn glir eu bod yn rhannu agwedd debyg ar amrywiaeth o faterion cartref a thramor.**

Ac eto, mae eu record, fel arweinwyr Cynulliadau Llundain a Chymru, yn dra gwahanol. Mae Ken, fel Maer Llundain, wedi defnyddio'i swydd fel llwyfan i wrthwynebu polisïau Tony Blair ar Irac a Trident ac i gefnogi llu o achosion da y byddai'r rhan fwyaf o aelodau CND Cymru yn eu cefnogi. Mae wedi ymddangos droeon ar y teledu a'r radio i ddadlau yn erbyn goresgyniad Irac a'r bwriad i uwchraddio'r system arfau niwclear Trident, ac ar lwyfannau Atal y Rhyfel ac CND.

Croesawodd Maer Llundain gynhadledd fyd-eang y Meiri dros Heddwch i Brydain, ac ym mis Mai 2005, roedd yn rhan o'r ddirprwyaeth o gynrychiolwyr o 23 o wledydd yn agoriad Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) yn y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd. Roedd gan hyd yn oed Gyngor Bwrdeistref Torfaen gynrychiolydd yn y gynhadledd honno, y Cyng. Yvonne Warren. Dyna drueni na chynrychiolwyd Cymru yno nac yn unrhyw achlysur arall pan ellid ac y dylid fod wedi clywed llais Cymru o blaid heddwch.

Pam nad yw Rhodri wedi siarad dros Gymru yn yr un ffordd? Yr unig ddau reswm (esgus) dwi wedi eu clywed yw (a) na fyddai aelodau eraill o'r cabinet wedi cefnogi hyn a (b) y byddai'r fath weithgareddau y tu allan i gylch cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r ail ddadl yn un hawdd i'w hateb: er mai cyfyngedig yw pwerau'r Cynulliad i wneud unrhyw beth, does dim cyfyngiad o fath yn y byd ar yr hyn y gall ei ddweud. Pe bai CND Cymru yn gofyn, er enghraifft, i Lywodraeth y Cynulliad (LlyC) i atal gweithgareddau â chysylltiad niwclear yn (dyweder) Sain Tathan, gallem ddisgwyl cael ein gwrthod am fod hynny y tu allan i gyfrifoldeb LlyC. Serch hynny, does dim byd ar y llyfr statudau i ddweud na allai'r Cynulliad Cenedlaethol, pe dymunai, fabwysiadu datganiad yn gresynu'r gweithgareddau hynny ac yn galw ar lywodraeth San Steffan i gyflawni ei chyfrifoldebau fel un o'r gwledydd sydd wedi arwyddo'r Cytundeb Atal Ymlediad.

Chwalwyd y rheswm/esgus cyntaf dros beidio â gweithredu yn deilchion gan Weinidog Addysg LlyC, Jane Davidson, mewn cyfweliad teledu cyn yr etholiad pan gadarnhaodd ei gwrthwynebiad personol i olynydd i Trident. Yn wir, mae'n hysbys fod pawb namyn un o gyn-aelodau cabinet LlyC yn bersonol yn gwrthwynebu goresgyniad Irac ac adnewyddu Trident. Felly pam mae Rhodri wedi cadw'n fud?

Y gwir reswm, mae arna'i ofn, yw gwaseidd-dra isymwybodol i San Steffan a pheiriant y Blaid Lafur. Lle heriodd Ken Livingstone beiriant y Blaid Lafur ac ennill – drwy gael ei ethol gan bleidlais y bobl – mae dyrchafiad Rhodri wedi bod yn ddibynnol ar barhau i fod fwy neu lai'n dderbyniol i hierarchaeth y Blaid Lafur yn Llundain. Yn eironig, dyna ei wendid mwyaf bellach.

Pe buasai wedi bod yn ddewrach ac, er enghraifft, wedi gwrthwynebu gorfodi ymgeisydd 'Llafur Newydd' ar etholaeth Blaenau Gwent, gallai fod wedi bod ag AC Llafur yno heddiw – yr un person â'r aelod presennol, o bosib – a byddai ei Blaid Lafur wedi dioddef llai o gael ei chysylltu â'r rhyfelgarwr Blair.

Ond mae newid yn y gwynt. Yn ystod ei chyfweliad, hawliodd Jane Davidson fod Rhodri wedi cymeradwyo ei datganiad 'personol' o wrthwynebiad i Trident. Datgelodd Rhodri yn gyhoeddus (yr hyn a wyddem ni i gyd, beth bynnag) y byddai, 'mae'n debyg' wedi pleidleisio yn erbyn rhyfel Irac.

Does ond gobeithio y bydd pwy bynnag fydd yn arwain llywodraeth nesaf y Cynulliad yn siarad dros heddwch ochr yn ochr â Chynulliad Llundain yn ystod y pedair blynedd nesaf.

**John Cox**
**CND Cymru Vice Chair**




**ASEau SNP a Plaid Cymru yn datgelu poster yn Senedd Ewrop yn Strasbwrg (14 Mawrth) fel rhan o'r ymgyrch yn erbyn adnewyddu rhaglen arfau niwclear Trident y Deyrnas Gyfunol. Yn y llun o'r chwith i'r de fe welir Ian Hudghton (SNP), Jill Evans (Plaid Cymru) ac Alyn Smith (SNP).**

# Alban Wrthryfelgar?



Nid bod ei gwleidyddiaeth yn llawer mwy blaengar (ysywaeth) sy'n gwneud yr Alban yn bwysig, Mae'n wir fod arolygon barn ar Trident yn yr Alban yn dangos llawer mwy o wrthwynebiad nag ym Mhrydain yn gyffredinol, ond ychydig o hynny sy'n troi'n weithredu. Rydym yn dioddef o ddiwylliant o fodlonrwydd lawn cymaint â gweddill Prydain. Mae llawer o weithgareddau gwrth-Trident yr Alban yn cael ei ysgogi gan bobl sy'n byw neu'n hannu o fannau eraill. Gellir priodoli pwysigrwydd yr Alban i leoliad y llongau tanfor yn Faslane/ Coulport, sy'n golygu fod y brotest a'r gweithredoedd diarfogi â gwell cyfle o effeithio ar ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac i'r trefniadau datganoli.

Sylwer fy mod yn fwriadol yn osgoi'r term 'y drefn sefydlog' am yr union reswm fod natur y trefniadau yn fwy anelwig nag a ddychmygir yn gyffredinol. Enghraifft dda o hyn oedd safiad Jack McConnell y llynedd ar driniaeth ceiswyr noddfa. Mae materion mewnfudo yn 'neilltuedig' i Whitehall, ond gyda'i feirniadaeth ddi-flewyn-ar-dafod ar bolisi'r Swyddfa Gartref, gallodd y Prif Weinidog ddylanwadu rywfaint, dros dro, ar sut y dylai'r mater gael ei drin. Roedd y neges yn glir. Gall pwysau cyhoeddus cryf bylu'r gwahaniaeth ymarferol rhwng materion neilltuedig a rhai sydd heb eu neilltuo, a thrawsnewid dynameg datganoli.

Mae Trident yn dwysáu'r tensiynau hyn. Mae'r protocolau arbennig ar faterion amddiffyn sy'n rhoi'r gair olaf i Whitehall ar faterion sydd, fel arall, o dan reolaeth Senedd Holyrood, ac sy'n effeithio ar Trident, e.e., amgylchedd, cynllunio economaidd a ffyrdd, yn tueddu i danlinellu'r problemau gyda'r trefniadau datganoli. Mae hyd yn oed Sgotiaid nad ydyn nhw o blaid annibyniaeth gyfansoddiadol yn cael eu cythruddo gan benderfyniad bwriadol i anwybyddu barn y cyhoedd yn yr Alban, yn enwedig gan ei fod yn benderfyniad sy'n codi cwestiynau hanfodol ynglwn â'r gyfraith ryngwladol.

Ers 11eg Medi 2001, mae pobl yn cydnabod nad yw diogelwch yn fater i un adran neu hyd yn oed dwy adran i ymateb iddo, ond yn un sydd yn effeithio ar yr holl broses benderfynu ar draws y llywodraeth a chymdeithas. Mae gan lywodraeth ddatganoledig yr Alban, yn wahanol i lywodraeth San Steffan, y gallu i gyfuno'r holl faterion sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelwch yn y byd modern. Mae gennym hawl i ystyried yn gyfannol beth sy'n ein gwneud yn ddiogel, boed yn gynaliadwyedd yn sector gynradd yr economi, statws cymdeithas sy'n gweithio'n gredadwy o blaid heddwch a chydraddoldeb byd-eang, neu feithrin cymunedau yn seiliedig ar gyfranogaeth a chyfiawnder economaidd, neu ddatblygu modelau o ddinasyddiaeth weithredol. Mae Trident yn ein clymu wrth y gorffennol. Mae cadwyno Sgotiaid wrth Trident yn golygu eu hamddifadu o'u hawl sylfaenol i fynd yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain, gan ei fod yn gorfodi arnynt, dan gochl diogelwch, system arfau a ddyfeisiwyd (boed hynny mewn anwybodaeth) i ddiogelu buddiannau amgen i'w rhai nhw.

Mae oblygiadau clir i weithredwyr gwrth-Trident yn yr Alban a thu allan iddi. Gallai llywodraeth newydd fod mor brysur yn meddwl am sut i oroesi, neu am ei hygrededd prif-ffrwd, nes i faterion moesegol fel Trident gael eu gwthio i'r ymylon. Rhaid i ni sicrhau na fydd yn mater yma yn syrthio oddi ar yr agenda. Dyma'r union adeg i beidio â llaesu dwylo a gadael pethau i'r gwleidyddion.

Gobeithio y caiff Senedd a Phrif Weinidog yr Alban glywed gan rai y tu allan i'r Alban fod llygaid y byd arnynt, yn ddisgwylgar. A oes unrhyw un yn barod i drefnu dirprwyaeth o rai nad ydyn nhw'n Sgotiaid i Holyrood gyda'r neges seml: "Chi yw'r allwedd"?

**David Mackenzie**

**heddweithredu:** i ddechrau, beth am sgrifennu at yr ASA a'r Prif Weinidog Alex Salmond, Senedd yr Alban, Caeredin EH99 1SP, Yr Alban



# Siglo ar si-so'r blynyddoedd

**Yn ei drydydd degawd o weithredu yn erbyn Wylfa B, mae ymgyrch PAWB yn erbyn codi gorsaf buer niwclear newydd ar Ynys Môn yn parhau i siglo nôl a mlaen rhwng gobaith a rhwystredigaeth ac yn ôl eto (ond dydyn ni byth yn digaloni!). Yn sgîl llwyddiant achos llys Greenpeace yn erbyn y llywodraeth, a gadarnhaodd mai twyll oedd yr 'ymgynghoriad' ynni diweddaraf, denodd cyfarfod cyhoeddus ym Mhorthaethwy ar 17eg Chwefror dorf dda i glywed Hugh Richards, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru a Neil Crumpton o CyDd Cymru.**

Ond roedd misoedd Mawrth ac Ebrill cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai yn rhai digalon. Canolbwyntiodd yr ymgeiswyr, yr undebau a'r wasg ar gwestiwn swyddi heb godi materion eraill hollbwysig. Drwy wneud hynny, roedden nhw'n chwarae'r union ran a fynnai ymgyrchwyr PR y garfan o blaid ynni niwclear. Roedd eu hystadegau yn codi bwganod, o'r safbwynt nad oedden nhw'n ystyried y byddid yn parhau i gyflogi gweithlu presennol Wylfa A i'w dadgomisiynu. Roedden nhw hefyd yn cynnwys y ffigurau ar gyfer gweithlu Anglesey Aluminium yng Nghaergybi, hyd yn oed wedi i reolwr y gwaith wneud datganiad cyhoeddus yn dweud fod y dyfodol yn ymddangos yn iach ac NAD oedd yn ddibynnol ar adeiladu gorsaf niwclear newydd.

### Ymgyrchu etholiadol

Lansiodd yr ymgyrchydd Llafur, Jonathon Austin, ymgyrch dros-ben-llestri o blaid ynni niwclear (ac o blaid hedfan isel gan yr RAF, fel mae'n digwydd!) gyda hysbysebion yn y wasg yn dirmygu Plaid Cymru am fod yn wrth-niwclear. Yn lle ateb y dadleuon hyn yn effeithiol, cyhoeddodd ymgeisydd y Blaid, Ieuan Wyn Jones, ei fod yn amodol O BLAID codi gorsaf niwclear, *volte-face* syfrdanol a achosodd ofid ymhlith llawer o gefnogwyr y Blaid ac aelodau PAWB o bob lliw gwleidyddol. Yr unig ymgeisydd a wrthwynebodd Wylfa B oedd Mandi Abrahams, Dem. Rhydd. Doedd gan y Gwyrddion, sydd wedi gwrthwynebu Wylfa B yn llafar, ddim ond ymgeiswyr rhestr. Mewn cyfarfod yn Llangefni dan nawdd Climate Chaos, dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr (wel, ddaeth y Tori, James Roach, ddim yno) nad oedden nhw wedi gwneud eu gwaith cartref ar yr amgylchedd, er enghraifft, fel ymchwilio i weld pa fath o adweithydd a gynigir ar gyfer gorsaf newydd. Hawliai'r ymgeiswyr y garfan niwclear gefnogaeth y cyhoedd drwy gydol yr ymgyrch. ond yn ystod rhaglenni radio ffonio-i-mewn, roedd mwyafrif llethol yn erbyn Wylfa B.

### Apêl at Blaid Cymru

Wel, ar y 3ydd o Fai 2007, dim ond 17.4% o'r bleidlais a enillodd ymgyrch fyrbwyll Jonathon Austin iddo. Llwyddodd Ieuan Wyn Jones i ddal gafael ar ei sedd yn y Cynulliad . . . felly mae PAWB bellach yn erfyn ar holl aelodau'r Blaid i bwyso am bolisi gwrth-niwclear cyson a chydlynol yn y dyfodol, ac ar aelodau gwrth-niwclear o'r Blaid Lafur ac undebwyr llafur i godi eu lleisiau hefyd, yn enwedig wrth i bob math o glymbleidiau gael eu hawgrymu yn sgîl yr etholiad.

### Dewch i siglo

Cred ymgyrchwyr PAWB fod adfywiad mewn teimladau gwrth-niwclear ar y gweill ar yr ynys ac mae ganddynt nifer gynyddol o bobl sy'n fodlon cefnogi'r ymgyrch yn ymarferol. Mae'r gwersi'r gorffennol yn dal i fod yno. Ugain mlynedd wedi i law o Chernobyl ddisgyn ar ffermydd mynydd gogledd Cymru, mae'r cyfyngiadau ar symud defaid newydd gael eu hymestyn am 10 mlynedd arall. Peidied neb byth ag anghofio. Mae'r si-so yn bendant yn disgyn ar ein hochr ni y tro yma felly, da chi, neidiwch arni i ychwanegu'ch pwysau chithau!

**Phil Steele**

**PAWB t: 01248 490 715 phil_steele@btinternet.com**




**Bu Aelodau newydd Senedd yr Alban yn tyngu eu llw ar y 9fed o Fai ar gyfer eu heisteddiad cyntaf wedi'r etholiad. Fe'u croesawyd gan y faner hon, a oedd yn adlewyrchu slogan etholiadol yr SNP, "It's time. Ban Trident", sy'n ein hatgoffa fod Trident yn dal yma er nad ydyn ni ei eisiau, ac i atgoffa ASAau i sefyll yn gadarn a chadw eu haddewidion cyn-etholiadol!**

## 'Gwelliannau' i allu dinistriol Trident eisoes ar y gweill

Mae arfau niwclear Trident Prydain yn cael eu huwchraddio'n gyfrinachol i'w gwneud yn fwy cywir ac i allu ymosod ar amrywiaeth ehangach o dargedau.

Tra bod gweinidogion y llywodraeth wedi gwadu droeon bod unrhyw gynlluniau i adnewyddu ergydion niwclear Prydain, gan ddadlau mai'r senedd nesaf fydd yn gorfod penderfynu, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyfaddef bellach fod dyfais danio newydd a ddatblygwyd yn yr UD yn mynd i gael ei gosod yn system arfau niwclear Prydain gan wyddonwyr yn y Sefydliad Ymchwil Arfau Atomig yn Aldermaston yn Berkshire, Lloegr.

Dywedodd dadansoddwyr y byddai'r ddyfais – y system Arfogi, Ffiwsio a Thanio – yn gwneud y system Trident yn fwy effeithiol oherwydd gellid newid puer, effaith ac alldafliad ymbelydrol yr arfau gan ddibynnu ar y targed.

Dywedodd Hans Kristensen, o Broject Gwybodaeth Niwclear Ffederasiwn Gwyddonwyr America: 'Y peth sylfaenol yw y bydd y ddyfais newydd, y gwyddom bellach ei bod yn cael ei hychwanegu at y system Brydeinig, yn rhan o ymgais i gynyddu effeithiolrwydd ymladd rhyfeloedd [y taflegrau Trident D5].'

'Bydd yn ehangu'r amrywiaeth o dargedau y gellir eu bygwth gyda'r arf.' Bydd y mecanwaith tanio newydd yn gwneud yr arf yn fwy cywir a gall bomiau niwclear gael eu ffrwydro gyda chymharol ychydig o alldafliad ymbelydrol.

Dywedodd John Ainslie, cyd-drefnydd Ymgyrch Ddiarfogi Niwclaer yr Alban, ei bod hi'n 'syfrdanol' fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wrthi'n uwchraddio ergyd ffrwydrol presennol Trident yn y dirgel, heb ddweud wrth y Senedd.

Ffynhonnell: *The Guardian* Richard Norton-Taylor, 14eg Mawrth 2007 http://politics.guardian.co.uk/print/0,,329744446-110247,00.html

# Academi Weithredu Ryngwladol i Ieuenctid

**26ain-30ain Gorffennaf yng nghanolfan niwclear Faslane, Yr Alban**



**Pum diwrnod o weithdai, gweithredu, rhwydweithio a hwyl gyda phobl ifanc o bob rhan o Ewrop a Japan!**

Yr haf yma, bydd rhwydwaith ieuenctid Ewrop dros ddiarfogi niwclear (neu BANg: 'Ban All Nukes generation') yn cynnal 'Academi Weithredu' ar gyfer pobl ifanc o Brydain a gweddill Ewrop, gyda chefnogaeth myfyrwyr o Japan o'r Heddgwch, y 'Brifysgol Fyd-eang', ac yn rhyngweithio gyda Gwersyll Coulport blynyddol Trident Ploughshares.

Bydd y rhai fydd yn cymryd rhan yn cael cyfle i ddysgu ac ymarfer Gweithredu Uniongyrchol Di-drais, ymgyrchu creadigol, ac efallai tipyn o glownio hefyd!

Cynhelir yr Academi yn Glasgow am ddwy noson, ac yng Ngwersyll Coulport (gerllaw Gwersyll Heddwch Faslane) am y tair olaf, gyda chyfarfodydd gyda myfyrwyr yr Heddgwch, a sgwrs gan Hibakusha (un o'r rheini a oroesodd fomio Hiroshima/Nagasaki), ar y 27ain a'r 28ain.

Mae'r rhaglen yn hyblyg, yn caniatáu i syniadau creadigol gan gyfranogwyr i gael eu cynnwys yn y gweithredu cyffredinol, gyda digon o amser i gymdeithasu a thrafod syniadau gyda rhai o wledydd eraill (yn cynnwys coginio gyda'n gilydd a gwersylla!)

Byddwn yn dangos i'r llywodraeth fod gwrthwynebiad i arfau dinistr torfol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Alban a'r DU, a bod yna alw rhyngwladol am bwyll a diarfogi.

Bydd bwyd a llety (mewn pebyll) ar gael yn rhad ac am ddim i'r 20 ymgeisydd cyntaf, a bydd gostyngiad ar gostau teithio i rai dan 28 oed (gyda'r flaenoriaeth yn mynd i deithwyr o wledydd tramor). Felly, da chi, ymgeisiwch cyn hir!

**heddweithredu:** **Am fwy o wybodaeth neu i ymgeisio cysylltwch ag Emily: emfreeman@hotmail.co.uk**
**Am wybodaeth ynglwn â Faslane, gweler www.faslane365.org a/neu â'r Heddgwch, gweler www.peaceboat.org**

**Mae arnom angen eich help chi hefyd! Bydd angen trefnwyr, gwirfoddolwyr a chefnogaeth ariannol a gan y cyfryngau er mwyn i'r project yma lwyddo i gael y llywodraeth Brydeinig i wrando ar reswm. Da chi, lledaenwch y gair a chysylltwch â'r cyfeiriad ebost uchod os ydych am gynnig help llaw!**

# Menywod dros Heddwch Wrecsam

Sefydlwyd grwp newydd yn Wrecsam o dan y teitl gwaith Menywod dros Heddwch Wrecsam. Fel menywod, gobeithiwn ddod â dimensiwn newydd i ymgyrchu dros heddwch yn y cylch, a byddwn yn cydweithio'n glos gyda rhwydweithiau heddwch presennol. Croeso i bob menyw ymuno â ni. Byddwn yn ymgyrchu yn erbyn olynydd i Trident ac am derfyn ar recriwtio i'r fyddin, sydd wedi ei anelu at blant.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 0845 330 4505 neu ebost wow@lists.riseup.net



Natalia Senmarti Tarragó

## Ysgrifennydd Aelodaeth CND Cymru

**Diolch o galon i Monica Bradley am ei gwaith diarbed fel Ysgrifennydd Aelodaeth CND Cymru. Mae'n rhoi'r gorau i'r swydd am resymau personol ac felly, mae CND Cymru yn edrych am ysgrifennydd aelodaeth newydd. Mae'r swydd wirfoddol yma wedi ei seilio ar waith cyfrifiadurol, ac fe ddarperir deunyddiau a threuliau. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Dr. John Cox (cysylltiadau, tud. 6)**

# Pwyllgor Paratoi y CAY 2007

Ceisiai datganiad y llywodraeth Brydeinig i Bwyllgor Paratoi y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear a gynhaliwyd yn Fienna o'r 30ain Ebrill i'r 11eg Mai amddiffyn y penderfyniad ar olynydd i Trident, gan bwysleisio ei bod yn dal 'i fod ag ymrwymiad llawn i fyd mwy diogel yn rhydd o arfau niwclear', ac nad oedd y penderfyniad ar Trident 'yn golygu fod penderfyniad diwrthdro wedi cael ei wneud.' Fodd bynnag, datgelwyd amharodrwydd y llywodraeth i ddadlau'r achos dros ddiarfogi pan ddywedodd 'ni chredwn fod yr amgylchiadau yn bodoli ar hyn o bryd i'r DU ildio ei harfau niwclear yn unochrog' – ond heb amlinellu unrhyw gamau neu gynigion clir parthed bwrw ymlaen gyda negydu diarfogi amlochrog.

Roedd y datganiad Prydeinig hefyd yn dadlau nad yw'r llywodraeth yn blaenoriaethu atal ymlediad uwchlaw diarfogi, ond nododd y Llysgennad Prydeinig fod Prydain wedi sicrhau atgyfnerthu'r piler atal-ymlediad drwy gyfrwng 'amrywiaeth eang o ddyfeisiau gwrth-ymlediad i gyflenwi darpariaethau'r CAY. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn parhau i wrthwynebu dyfeisiau cyflenwol ar gyfer y piler diarfogi, fel Cytundeb Arfau Niwclear; yn hytrach, mae'n dadlau 'y gallai hynny fygwth torri ar draws trefn bresennol y CAY.'

Cynhwysodd Cadeirydd Pwyllgor Paratoi'r CAY bryderon ynglwn â moderneiddio arfau niwclear yn ei grynodeb ar y diwrnod olaf: 'Lleisiwyd pryder a siom ynglwn â chynlluniau i foderneiddio arfau niwclear a'u cyfarpar tanio neu lwyfan, neu i sicrhau rhai newydd yn eu lle; am y rhan gynyddol y mae arfau niwclear yn ei chwarae mewn syniadaeth strategol a milwrol; a'r posibilrwydd o ostwng y trothwy ar gyfer defnyddio arfau niwclear. Mewn ymateb i'r pryderon hyn a gyfeiriwyd at yr Unol Daleithau a'r Deyrnas Unedig, darparodd y rheini eglurhad ac esboniad o'u hymdrechion i gyfeiriad diarfogi niwclear. Mynegwyd pryder hefyd ynglwn â chydweithrediad niwclear gyda gwledydd sydd heb arwyddo'r CAY, a galwyd ar bawb i lynu wrth eu dyletswyddau o dan y Cytundeb.'

Gan edrych yn ôl ar yr holl gynhadledd, dywedodd Dr Rebecca Johnson o Sefydliad Acronym ar gyfer Diplomyddiaeth Diarfogi yn anffurfiol y bu 'llawer o adegau o rwystredigaeth, ond at ei gilydd, roedd hwn yn ganlyniad llwyddiannus, a dyma'r tro cyntaf (dwi'n credu) i'r DU gael ei henwi a'i chywilyddio (waeth mor fwyn y geiriau) yng nghyd-destun y CAY am ei rhaglen arfau niwclear. Naw wfft i honiad y Swyddfa Dramor nad oedd unrhyw broblem.'

**heddweithredu: Rhaid herio'r datganiad siomedig yma: mae CND Cymru yn eich annog i sgrifennu at eich AS ac at yr Ysgrifennydd Tramor, Margaret Beckett, i ofyn i'r llywodraeth ailystyried ei safbwynt ar Gytundeb Arfau Niwclear (gweler tud. 6 am y cyfeiriadau).[www.acronym.org.uk]**

# Ewrop – Cludydd Awyrennau America

**Cynhaliwyd trafodaethau yn ddiweddar rhwng Adran Wladol yr UD ac aelodau o weinyddiaethau Amddiffyn a Materion Tramor y Weriniaeth Siec gyda'r nod o leoli gorsaf radar Americanaidd, fel rhan o raglen amddiffyn taflegrau'r UD, i'r de-orllewin o Prâg.**

Dangosodd arolwg diweddar 68% yn erbyn y syniad yn y Weriniaeth Siec, gyda 77% am weld refferendwm ar y mater. Dangosodd arolwg diweddar fod 67% o'r cyhoedd Prydeinig yn erbyn unrhyw gyfranogaeth yn rhaglen 'amddiffyn' taflegrau'r UD.

Mae'r gefnogaeth i'r project yng Nghyngres yr UD yn gwanhau hefyd. Dywedodd Ellen Tauscher, Democrat o California sydd ar Bwyllgor Lluoedd Arfog y Tŵ, na fyddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo 'dim ond buddsoddiadau call' yn yr hyn a alwodd hi'n 'raglenni anaeddfed, peryglus' i saethu taflegrau hirbell o'r awyr. Pleidleisiodd is-bwyllgor cyngresol i haneru'r cyllid ar gyfer rhan Ewropeaidd y system.

Gallai cynlluniau'r UD arwain ar ras arfau fyd-eang newydd, gan greu dyfodol o ansicrwydd a gwrthdaro ledled y byd. Byddai'r system Amddiffyn Taflegrau yn rhoi i UD y gallu i daro'n gyntaf yn erbyn unrhyw wlad yn y byd, heb ofni cael ei tharo nôl. Byddai lleoli gorsafoedd radar a thaflegrau rhyng-gipio yn Ewrop yn rhoi dinasyddion y gwledydd hynny mewn perygl o ymosodiad.

Mae CND Cymru wedi cefnogi datganiad terfynol y gynhadledd, sydd â'r teitl 'Does ar Heddwch ddim angen Taflegrau Newydd – Dywedwn Na i system amddiffyn taflegrau'r UD yn Ewrop'. Mae hwn yn galw am ddiarfogi fel rhagamod i heddwch a diogelwch gwirioneddol i'r ddynolryw, ac mae'n cytuno, 'er mwyn wynebu'r argyfwng ecolegol sydd wrth law, fod yn rhaid wrth gydweithrediad ac ymddiriedaeth rhyngwladol, nid gwrthdaro.'

## Cynhadledd Prâg yn erbyn Cynlluniau Amddiffyn Taflegrau'r UD

Daeth 150 o gynrychiolwyr 14 o fudiadau sy'n rhychwantu naw o wledydd Ewrop ynghyd ym mis Mai i lunio strategaethau ac ymgyrchoedd ar y cyd yn erbyn cynlluniau'r UD ar gyfer eu canolfannau 'Amddiffyn Taflegrau' yn Ewrop, lle bwriadant leoli taflegrau rhyng-gipio yng Ngwlad Pwyl ac adeiladu gorsaf radar yn y Weriniaeth Siec.

Clywodd y Gynhadledd gan ymgyrchwyr lleol o Hwngari sy'n gwrthwynebu gorsaf radar NATO newydd ger dinas Pecs. Roedd yr holl gyfranogwyr yn eiddgar i gydweithio a chydweithredu ac mae rhwydwaith Ewropeaidd yn cael ei ddatblygu.

**heddweithredu:** Anogir grwpiau ac unigolion i arwyddo: da chi, gwnewch hynny, drwy gysylltu ag info@nezakladnam.cz neu maja_konf@yahoo.co.uk Gweler y datganiad ar [http://nezakladnam.cz/konference_FFUK.php]

# Faslane 365



**17[eg] Mawrth: Gwnaeth Alternativa Antimilitarista MOC o Sbaen** job liwgar o beintio'r Glwyd Ogleddol. Mae cyfranogaeth frwdfrydig grwpiau rhyngwladol yn pwysleisio gymaint o fater rhyngwladol, byd-eang yw Trident, gyda phobl o bedwar ban y byd yn ei wrthwynebu'n egnïol. Dylai gwleidyddion yr Alban sylweddoli, pe bai diarfogi niwclear yn cychwyn yn yr Alban, y câi hynny gefnogaeth ryngwladol anferth. ▲



**8[fed] Mawrth: Clerigwyr yn erbyn Arfau Niwclear** ▲

Cynhaliodd Esgob Reading wasanaeth gyferbyn â clwydi Faslane a dywedodd ei fod yn cymeradwyo'r rheini sy'n creu trafferthion i'r rheini sydd am i ni ymddiried mewn arfau niwclear anfad.



**19[eg] Mawrth: Caeodd Northmyn o Efrog** y ddwy fynedfa i ganolfan llongau tanfor niwclear Faslane. Bu protestwyr o Sbaen yn canu, dawnsio a gweiddi eu cefnogaeth i'r Northmyn wrth i 12 gael eu restio. ▶ ▼





**Ebrill 1[st]: Byddin Gudd Derfysgol y Clowniaid Gwrthryfelgar (CIRCA)** ▲ Ymunodd gyr o Glowniaid o Aberystwyth, Byddin Boncars Clowniad Cymru (BBC Cymru) â'u cymrodyr o'r Alban, Iwerddom, Lloegr a chymrodyr rhyngwladol o NUTO yn Faslane i wneud dwli diogel o 'synnwyr' anniogel – am ddiwrnod, o leiaf.





**Amgylcheddwyr annibynnol**

Ar Ebrill 26[ain] hefyd, caeodd grwp o fyfyrwyr o Brifysgolion Stirling, Caeredin a St Andrews yr holl ffyrdd i mewn i storfa arfau niwclear Coulport am ddwyawr, gan ddefnydio dau drybedd, cloi eu hunain ynghyd, a 'superglue'. Hwn oedd y bore wedi i Jackie Baillie ASA, mewn cyfarfod cyhoeddus ynglwn â swyddi Trident, annog protestwyr i gynnal blocêd ar Coulport yn lle Faslane.



▲

**9[fed] Ebrill – Llun y Pasg: Buchod a chowmyn yn chwifio baneri**


Daethpwyd â'r grwp rhyngwladol, ond Swisaidd yn bennaf, CIA (Cows in Action) i Faslane gan gowmon rhan-amser. Er gwaethaf galw am wellt di-niwclear i bob buwch, mae'r rhain yn ymgyrchu o ddifrif dros yr amgylchedd, ac mae llawer ohonyn nhw'n gweithio i Greenpeace. Ar ôl deuddydd o hwyl a chwaraeon, i ffwrdd â nhw i'r bws oedd yn mynd â nhw adre, ond yna, yn sydyn, dyma nhw'n troi'n ôl a chadwyno eu hunain i'r Glwyd Ogleddol, wedi i'r heddlu ymadael. Cafodd y 700[fed] person ei restio yn ystod y weithred hon. Cafodd 10 person o CIA & Friends eu restio.



◀ **13[eg] Ebrill Caeodd Trident Ploughshares** y ffordd sy'n arwain at y Glwyd Ddeheuol. Cafodd 24 o bobl eu restio, a chymerodd rhyw 15 arall ran drwy gefnogi a helpu i baratoi.



Ffotograffau: www.faslane365.org



◀ **26[ain] Ebrill: Dydd Chernobyl**

Gwnaeth cynghrair o amgylcheddwyr, yn cynnwys Cyfeillion y Ddaear, Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd, Greenpeace, y Blaid Werdd a Phlant Chernobyl, y cysylltiad rhwng arfau niwclear a phwer niwclear.

**Gweler [www.faslane365.org] os ydych am gymryd rhan! Neu cysylltwch â Genny Bove t: 0845 330 4505 e:vg@genny.force9.co.uk os hoffech fynd gyda grwp o Gymru**

# dyddiadau dyddiadur

**Mehefin Ymgyrch Dileu'r Fasnach Arfau, Lansio Ymgyrch Buddsoddi Glân 2007.** Bydd manylion ar gael am y cyfranddaliadau mewn cwmnïau arfau sydd gan gronfeydd pensiwn Awdurdodau Lleol, ynghyd â ffigurau ar gyfer elusennau, undebau a chyrff crefyddol ac iechyd. e:deaninvestment@caat.org.uk. Mae ffigurau 2006 yn dal ar-lein [www.caat.org].

**Mehefin 2il 12.00 - 1pm Gwylnos Menywod mewn Du Caerdydd. Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol**

**Mehefin 3ydd– 13eg Taith Ymddiriedolaeth Amos i Balesteina ac Israel** Cysyllter â: John Butler, Caplaniaeth Anglicanaidd Bangor t: 01248 370 566 [www.amostrust.org]

**Mehefin 9fed Llundain Gwrthdystiad a Rali Dywedwn DYNA DDIGON ar feddiant Israel ar Diriogaethau Palesteina,** cwrdd yn Lincoln's Inn Fields am 1.30pm ar gyfer yr orymdaith i Sgwâr *Trafalgar* [www.enoughoccupation.org]

**Mehefin 10fed Diwrnod Gweddi Ymgyrch Dileu'r Fasnach Arfau** Thema eleni: Saudi Arabia. Taflenni a phecynnau ar gael gan Alun: christian@caat.org.uk

**Mehefin 11eg 7.15pm Sgwrs gan Ben Gregory ar ei ymweliad diweddar â Nicaragua** Y Ffynnon, Ffordd y Tywysog, Bangor: Grup Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn. Cysyllter â:

**Mehefin 23ain Cymdeithas y Cymod, Pererindod Epynt.** Ym mis Mehefin cynhelir 'dathliadau' swyddogol i nodi 25 mlwyddiant 'buddugoliaeth' Prydain yn ynysoedd y Malfinas. Bydd Cymdeithas y Cymod yn nodi'r achlysur â gwasanaeth o edifeirwch ar Fynydd Epynt. Defnyddir (a chamddefnyddir) Epynt i hyfforddi milwyr sut i ladd a chlwyfo. Ymladdodd milwyr Cymraeg eu hiaith ei gilydd yn y rhyfel. Roedd y fyddin Brydeinig yn cynnwys pobl ifanc o Gymru ac roedd Patagoniaid o dras Gymreig ym myddin Ariannin.Bydd y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor yn arwain gwasanaeth yn adfeilion Capel y Babell ar Epynt am 1pm ddydd Sadwrn y 23ain Mehefin. Croeso cynnes i bobl o bob rhan o Gymru. Cwrdd ar sgwâr Llanwrtyd am 11am; ymweld â gweddillion tafarn y *Drovers Arms* ar Epynt am bicnic cyn symud ymlaen i Gapel y Babell. e: post@cymdeithasycymod.org.uk [www.cymdeithasycymod.org]

**Mehefin 28ain 5.30pm Caerdydd. 'Belarus: The Last Dictatorship in Europe' Jim Dingley** Cymdeithas Lloegr-Belarws. Un o sgyrsiau CCU Cymru yn y Deml Heddwch, Parc Cathays e:una@wcia.org.uk t: 029 2082 1055 [www.wcia.org.uk/UNAWales]

**Mehefin 30ain Prifysgol Leeds 1:00 pm - 6:30 pm Cynhadledd flynyddol Mudiad Datblygiad y Byd – 'Activism past, present & future'** Siaradwyr: Ngugi wa Thiong'o, George Monbiot a Mohau Pheko. Digwyddiad rhad ac am ddim: dathlu a dysgu gan ymgyrchoedd cyfiawnder byd-eang – arddangosfa o bortreadau, cerddoriaeth a stondinau ymgyrchoedd. Sesiynau ar gaethwasiaeth, apartheid, cyfiawnder hinsawdd, brwydrau yn erbyn preifateiddio, cerddoriaeth. [www.wdm.org.uk/wrr] t: 020 7820 4900

**Gorffennaf 7fed 12.00–1pm Gwylnos Menywod mewn Du Caerdydd. Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol**

**Awst 4ydd - 11eg Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007 Pentrehobin Stondin/Pabell CND Cymru. Angen Siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr i helpu. Da chi, cysylltwch â Del Gwynfyd Harris neu Kate Gwynfyd Sidford 01974 831 575**

**Awst 10fed - 12fed Machynlleth: *El Sueño Existe.* Gwyl o gerddoriaeth, diwylliant a gwleidyddiaeth o America Ladinaidd.** [www.elsuenoexiste.org.uk]

**Sadwrn, 22 Medi, Y Galeri, Caernarfon: Gwyl Heddwch Cymru.** Trefnwyd gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon. Mwy o wybodaeth: 01286 882 134 neu benica@gn.apc.org. **BYDDWCH YNO! Manylion yn rhifyn nesaf 'heddwch'.**

**Medi 29ain– 30ain Faslane 365 Cynhadledd Diwedd Blwyddyn**: Sut i barhau ag ynni Faslane 365 wrth wrthwynebu arfau niwclear ym Mhrydain. Nos Sadwrn 29ain: noswaith o ddathlu creadigol, canu, dawnsio ac adrodd straeon. Sul 30ain Medi – paratoi ar gyfer gweithredu gan grwpiau annibynnol sydd am ymuno mewn gwarchae dathliadol i ddwyn y flwyddyn o wrthsafiad i ben. Croeso i bawb. e: info@faslane365.org [www.faslane365.org]

**Tan fis Rhagfyr 2007: Llundain, Tw'r Cyfeillion, Euston Road, 'Turning the Tide', Rhaglen Hyfforddi Ddi-drais.** Gweithdai misol i rai sydd am ddysgu am ddulliau newid radicalaidd neu hyfforddi mewn hwyluso grwpiau gweithredwyr a chymuned sy'n gweithio dros newid cymdeithasol. Gweithdai ar gael fel cwrs cyflawn neu'n unigol. Cost: £20 yr un; bwciwch o flaen llaw. Cysyllter â Turning the Tide, Tw'r Cyfeillion, 173 Euston Rd, Llundain NW1 2BJ. 020 7663 1064/1061. e: sophier@quaker.org.uk [www.turning-the-tide.org]

## Ymunwch â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear!

**Fu 'na 'rioed amser pwysicach i fod yn rhan o lais rheswm a phwyll yng Nghymru.**

**Ymunwch ag CND Cymru a chefnogwch y mudiad ymgyrchu di-blaid wleidyddol mwyaf ar gyfer pobl gyffredin yn y wlad. Pobl gyffredin yw'r arch-bwer sy'n cael ei anwybyddu a'i ddiystyru yn y byd!**

**Cyfraddau Aelodau:** £30 pâr cyflogedig; £20 oedolyn; £15 digyflog;£10 digyflog, pensiynwyr, ieuenctid a myfyrwyr.Sieciau'n daladwy i 'CND Cymru'

**danfonwch gyda'r eich enw a chyfeiriad i:** Ysgrifennydd Aelodaeth, CND Cymru, Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypwl NP4 7EF t: 01495 773 180

## Gwireddu Breuddwydion

## Janet Bloomfield 1953 - 2007



Rydym wedi colli Janet – mor ifanc ac mor weithgar o hyd, ac eto mae wedi mynd. Efallai na ddylai erthygl i goffáu rhywun sôn am y sioc a'r tristwch, ond mae cymaint o hyn yn ein calonnau, a Richard, Lucie a Robin, rydych chi yn ein meddyliau – mae hynny'n bwysicach na dim byd arall ar yr adeg yma.

Yn gyntaf oll, roedd Janet yn fenyw, yn fod dynol a oedd yn caru'r byd. Yna, roedd yn ymgyrchydd â'r ffordd ei hun o weithredu, heb fod yn dod o gornel ideolegol wleidyddol. Byddai'n gwrando ar ei chalon. Fel Crynwraig, roedd hi'n benderfynol o fwynhau a dathlu'r byd roedd hi am ei achub, gan fwynhau, yn enwedig, yr agweddau rhyngwladol o gwrdd â phobl a gwneud i bethau weithio mewn ffordd wahanol.

Pan gwrddais i Janet gyntaf, roedd hi newydd dychwelyd o ddirprwyaeth heddwch i Hwngari yn ystod chwalfa'r bloc Dwyreiniol. Roedd y teulu ar wyliau yng Nghymru ac fe aethom i nofio gyda'n gilydd yn Afon Pysgotwr. Gweithgareddau heddwch da.

Yn ddiweddarach, pan oedd hi'n gadeirydd CND Prydeinig, daeth Janet i annerch rhai o gyfarfodydd CND Cymru – dwi'n cofio un, yn enwedig, pan gynhalion ni brotest yn erbyn THORP yn nannedd y gwynt ar Brom Aberystwyth, ac yna gyrru nôl dros y mynyddoedd i Lanymddyfri. Roeddem yn gydweithwyr ac yn gymrodyr.

Un dydd o haf ym 1996, daeth hi a Pamela Meidell â Phererindod y Drych Atomig i'n cartref yn Sir Gaerfyrddin. Dim ond ychydig oriau a dreuliais gyda nhw, ond roedd yn un o'r adegau bythgofiadwy hynny yn llawn hud arbennig. Roedd y deuddeg pererin ar eu ffordd i Dyddewi yn dwyn rhoddion, tywod o Hiroshima, storc origami ac eitemau o bererindod heddwch flaenorol i safloedd niwclear. Goleuwyd canhwyllau.

Yr haf diwethaf, fel gwrddais â Janet a Pamela (ei chwaer yn y ffydd, os bu un erioed) yng Ngwyl y Gelli. Roedden ni wrthi'n gwneud cynlluniau.

Janet, byddwn yn parhau i geisio gwireddu dy freuddwydion.

Dwi'n clywed Janet yn dweud – 'drychwch, wyddon ni ddim beth sy'n dod, mae'r amser yn fyr, gweithredwch nawr, peidiwch ag oedi.'

**Jill Gough**

Roedd Janet yn gadeirydd CND Prydeinig (1993-96), yn aelod o'r Cyngor Byd-eang ar Ddileu 2000 ers 1997, hi oedd cyd-drefnydd ymgyrchu rhyngwladol Abolition Now!, ac roedd yn ffigwr allweddol yn y Rhaglen Ymwybyddiaeth o Arfau Dinistr Torfod a sefydlwyd gan Syr Sir Joseph Rotblat.

Ysgrifennwch eich teyrnged eich hun i Janet a darllenwch lawer o rai eraill sy'n talu llawer mwy o sylw i'r hyn a gyflawnodd Janet yn ymarferol yn y mudiad heddwch. Gweler [http://janetbloomfield.com/main/]




## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Golygydd:** Jill Gough (01495) 773 180 heddwcheditor@cndcymru.org

**Cyfiethydd:** Sian Edwards sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:** Redkite Print (01591) 610 844 redkiteprint@thefreeflyer.com


## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330
Brian.Jones@nptc.ac.uk

Llew Smith

George Crabb
(01446) 774 452

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

John Cox
(01495) 773 495

**aelodaeth & aelodau cysylltiol:**
c/o John Cox
(gweler uchaf)

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford & Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831575

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Gough,
Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypwl NP4 7EF (01495) 773 180
jill@cndcymru.org
heddwcheditor@cndcymru.org